Minutes

Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned

Date:	Dydd Iau, 10 Mehefin 2021
Time:	6.00 pm
Present:	Councillors Graig, Llanwern, Marshfield, Penhow, Rogerstone and Wentlooge Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Pamela Tasker (Governance Officers)
In Attendance:	
Apologies:	Councillors Nash

1 **Ymddiheuriadau**

T. Ducroq o Gyngor Cymuned Trefonnen

2 **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Esboniodd y Cadeirydd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ar frig yr agenda er mwyn paratoi rhwng nawr a mis Mai nesaf 2022, gan ofyn a oedd unrhyw un o'r Cynghorau Cymuned yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth.
Gofynnodd cynrychiolydd y Graig, Nathan Tarr, a fyddai newidiadau i'r ffiniau yn effeithio ar y Cynghorau Cymuned.
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi cynnal adolygiad etholiadol gan y Comisiwn Ffiniau, ond nad oedd y gorchymyn wedi cael ei wneud eto gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn newid rhai o ffiniau Ward ar gyfer yr etholiad cyngor nesaf, cafodd Tŷ-du a'r Graig eu heffeithio ond doedd dim gormod o newidiadau ffiniau eraill.

Gofynnodd cynrychiolydd y Graig a fyddai gan Dŷ-du fwy o Gynghorwyr, ac fe gadarnhaodd y Cadeirydd y byddai gan Dŷ-du 4 Cynghorydd oherwydd poblogaeth gynyddol ond wedi rhannu'n 3 ward wahanol.
Teimlai cynrychiolydd y Graig ei bod yn gam da gan fod y Graig yn ymddangos yn bur ynysig yn ddaearyddol. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod 2 Gynghorydd yn dal i fod ar gyfer ward Y Graig felly nid oes colled cynrychiolaeth yno. Cafodd yr adolygiad etholiadol o gyngor y ddinas ei gwblhau gan y Comisiwn Ffiniau'r llynedd a byddai angen i weinidogion newydd y Senedd wneud y gorchmynion newydd cyn Mai 2022.

Derbyniwyd gan fod Casnewydd yn ddinas sy'n tyfu ac roedd angen cynyddu nifer y Cynghorwyr o 50 i 51. Ond, cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd newidiadau y Comisiwn Ffiniau yn gwneud gwahaniaeth enfawr i Gynghorau Cymuned, gan nad oedden nhw'n newid ffiniau cymunedol presennol, er y byddai Pentref Afan yn symud o ward Graig i'r Tŷ-du, fyddai'n golygu newidiadau bychan i gynrychiolaeth y ward o fewn cyngor cymuned Tŷ-du.

Dywedodd y Cadeirydd y gallai Cynghorau Cymuned cymwys wneud cais i Lywodraeth Cymru i gael Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, ac fe allai hyn gael ymateb cymysg, ond roedd y pŵer yno os oedden nhw am ei ddefnyddio.

Dywedodd y Cadeirydd mai i Gynghorau Cymuned y pwyntiau pwysicaf i'w nodi oedd:

- Mynediad i gyfarfodydd - byddai'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd o bell yn parhau. Nid oedd y rhwymedigaethau ar gynghorau cymuned mor feichus â Chyngor y Ddinas gan fod yn rhaid i'r Cyngor ddarlledu cyfarfodydd pwyllgor yn fyw. I Gynghorau Cymuned roedd hi'n ofyniad i aelodau ddeialu i mewn a chael eu clywed. Roedd agenda amrywiaeth gan Lywodraeth Cymru, felly os oedd hi'n anodd i gynghorwyr deithio i gyfarfodydd, yna fe allent ddeialu mewn.
- roedd angen mynediad rhesymol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd. Roeddem yn dal i aros am arweiniad ar hyn, ond bydd yn hyblyg.

Dywedodd cynrychiolydd Llanwern nad oedd modd i'w cyngor cymuned gwrdd heblaw o dan reolau ymbellhau cymdeithasol, gan nad oedd modd rhoi mynediad o bell gan nad oedd gan y Cyngor Cymuned yr isadeiledd TG i ddarparu hyn.
Cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r angen i fynychu o bell oedd ar gyfer Cynghorwyr Cymuned ac ati, a bod hynny o ganlyniad i ymbellhau cymdeithasol, ond pan na fyddai hynny'n berthnasol bellach byddai'n ddigonol i'r cyhoedd fynychu'n gorfforol bryd hynny.
Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei fod yn credu y byddai Cynghorau llai yn cael trafferth gyda mynediad o bell oherwydd diffyg mynediad i'r we mewn neuaddau pentref.
Dywedodd y Cadeirydd fod gan Gynghorau'r Ddinas reolau mwy beichus ond gyda Chynghorau Cymuned ac ati, fe allent ddeialu mewn ar ffôn symudol ac y byddai hyn yn ddigonol cyn belled â'u bod yn cael eu clywed. Gallai rhai Cynghorau Cymuned gael rhyw ffordd arall o gymryd rhan lle nododd y rheol bod yn rhaid i bobl glywed a chael eu clywed e.e. byddai cael rhywun ar seinydd y ffôn yn ddigon. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y pwynt blaenorol gan gynrychiolydd Llanwern ynghylch cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd, gallai'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod wyneb yn wyneb.
Dywedodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr wirio'r canllawiau yn ofalus pan gaiff eu cyhoeddi, ond doedd dim rhaid i Gynghorau Cymuned gael band eang na thechnoleg gostus.
Cyfeiriodd cynrychiolydd y Graig at gyfarfodydd o bell a holodd a fyddai cyfarfodydd o bell neu gyfarfodydd hybrid cyfun yn parhau pan fyddai'r pandemig drosodd.
Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyfarfodydd o bell yn parhau am y tro, tra bod technoleg hybrid yn cael ei datblygu, fel roedd y ddeddfwriaeth yn ei hangen.
Byddai'n rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd barhau fel hyn gan fod dyletswyddau mwy beichus arnom. Roedd y cyfan yn ymwneud â chadw pobl yn ddiogel ac roedd holl bwyllgorau Cyngor Dinas Casnewydd yn cael eu cynnal o bell, felly deialodd pob aelod unigol o bell a daeth y Llywodraeth â rheoliadau dros dro i mewn i ganiatáu i hyn ddigwydd.
Yn Lloegr roedd y ddeddfwriaeth yn wahanol gan fod eu pwerau brys ar gyfer cyfarfodydd o bell wedi dod i ben ym mis Mai gan mai dim ond 12 mis o bŵer oedd ganddyn nhw i ddod â'r mesurau hyn i mewn.
Yng Nghymru, er i'r ddeddfwriaeth Coronafeirws ddod i ben ym mis Mai, cafodd y ddeddfwriaeth hon ei disodli gan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a oedd yn parhau cyfreithlondeb cyfarfodydd o bell yng Nghymru.
Esboniodd y Cadeirydd y byddai Cynghorwyr yn y dyfodol yn cael dewis a allan nhw ddod i mewn ar gyfer y cyfarfodydd neu ddeialu i mewn ac roedd y dechnoleg yn cael ei datblygu nawr i alluogi hyn. Roedd hynny'n golygu y byddai

sgriniau yn siambr y cyngor yn ogystal â meicroffonau ac ati, a oedd yn gost uchel, ond mae'n rhaid i ni ddarlledu ein cyfarfodydd. Does dim rhaid i gynghorau cymuned wneud hyn.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Y Graig at y ddeddfwriaeth gafodd ei chyhoeddi'r wythnos ddiwethaf, a gofynnodd am nifer y bobl a allai gyfarfod, na allai fod yn fwy na 6 o bobl dan do.

Dywedodd y Cadeirydd fod hynny'n ymwneud â chyfyngiadau Covid a mater i'r Cynghorau Cymuned oedd a allent gyfarfod yn ddiogel tra'n cadw pellter cymdeithasol, ac roedd y cyfeiriad at y cyfyngiadau 6 o bobl dan do yn ymwneud â swigod cartref. O ran digwyddiadau wedi'u trefnu, roedd hyn yn cyfeirio at 15-30 o bobl, ond roedd hyn yn dibynnu a oedd yr ystafell yn ddigon mawr i bobl ymbellhau'n gymdeithasol.

Dywedodd cynrychiolydd y Graig fod cyfarfod prawf wedi ei gynnal yn neuadd y Graig gan ei bod hi'n ardal fawr ac roedd gan 90% o bobl oedd yn bresennol fygydau ymlaen a phawb wedi pleidleisio i fynd nôl i gyfarfodydd Zoom gan eu bod wedi methu clywed y cyfarfod.

Cytunodd y Cadeirydd ei bod yr un peth gyda'r Ganolfan Ddinesig gan fod capasiti ar gyfer y rhan fwyaf o ystafelloedd yn gyfyngedig, roedd lle i symud yn bwysig, gan nad oedd 100% yn sicr y gellid cynnal diogelwch yno, felly nid oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal. Pe bai'r asesiad risg yn nodi y gallai gael ei wneud yn ddiogel argymhellwyd peidio cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb am y tro.

Esboniodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod dau Gynghorydd yn wrth-frechu felly roedd yn sefyllfa'n anodd a gofynnodd a oedd modd dweud wrthyn nhw na allan nhw fynychu cyfarfodydd neu fod yn rhaid iddyn nhw fynychu o bell.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn broblem gyffredin gan nad oedd pŵer cyfreithiol gorfodaeth i bobl gael y brechiad. Fodd bynnag, mae gan Gynghorwyr ofyniad cyfreithiol i fynychu cyfarfodydd felly roedd modd cynghori o ran cyfarfodydd o bell. Os oedd cytundeb i'r Cynghorwyr hynny ddeialu o bell yna roedd hyn yn wahanol. Fodd bynnag, os nad oeddent ac roedden nhw'n teimlo gwahaniaethu yn eu herbyn, yna cyfarfodydd o bell oedd yr opsiwn mwy diogel i bawb.

Nododd y Cadeirydd y byddai gofyn o fis Ebrill nesaf:

- I Gynghorau Cymuned i lunio a chyhoeddi **Adroddiad Blynyddol**. Roedd yn ansicr ynghylch y cynnwys eto, ond byddai'r adroddiad Blynyddol yn sicrhau tryloywder ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac roedd yn orfodol o fis Ebrill 2022 nesaf ymlaen.

Cadarnhaodd cynrychiolwyr Gwynllŵg bod hyn eisoes wedi'i gwblhau ar gyfer Gwynllŵg fel rhan o'u cyllidebu lle amlygwyd blaenoriaethau.

- Rhaid cyhoeddi **Cynlluniau hyfforddi**. Cynlluniau i hyfforddi Cynghorwyr a Staff i gael eu cyhoeddi 3 mis ar ôl pob etholiad.

Gofynnodd cynrychiolydd Gwynllŵg a oedd cyrsiau i ddod yn orfodol.

Esboniodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi meddwl am y syniad hwn ond wedi camu nôl o hyn felly roedd cynlluniau hyfforddiant yn ffordd fwy meddal o wneud hyn. Ond trafodwyd y gallai Cynghorau Cymuned wneud eu hyfforddiant yn orfodol felly gallent gael eu rheolau mewnol eu hunain.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg y dylai'r Cod Ymddygiad, cynllunio sylfaenol, Cyllid, a'r Gyfraith fod yn allweddol o ran yr hyn y gall Cynghorwyr ei wneud ac na allent ei wneud.

Fel rhan o gynllun hyfforddiant, gallai'r Cynghorau Cymuned eu hunain wneud hyn yn orfodol, ond fe allai hyfforddiant ddod â chost.

Cytunodd cynrychiolydd Gwynllŵg bod llawer o gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru gan Un Llais Cymru am hyfforddiant ac wedi cael hyfforddiant am ddim eleni.

Ychwanegodd cynrychiolydd Y Graig efallai y gallai fod yn werth cael rhaglen hyfforddiant cyffredin y gallai pob cynghorydd cymuned ei meithrin.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn anodd dweud, gan fod Cynghorwyr Cymuned i gyd ag anghenion hyfforddiant gwahanol. Roedd yna hyfforddiant penodol a oedd yn orfodol.
Roedd y Cod Ymddygiad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Mr Richard Penn sy'n gweithio i'r Panel Taliadau Cydnabyddiaeth ymgymryd ag adolygiad o'r Cod Ymddygiad a'r fframwaith moesegol e.e. rôl yr Ombwdsmon ac ati gan nad oedd cod ymddygiad yr Aelodau wedi cael ei adolygu ers 2006. Byddai hyfforddiant ar y cod diwygiedig hwnnw yn orfodol.
Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn cynllunio cyfres o sesiynau hyfforddiant sefydlu ar gyfer derbyn aelodau newydd fis Mai nesaf a fyddai ar y Cod ymddygiad. Rhwng nawr a mis Mai nesaf gellid cynnal trafodaethau â Chynghorau Cymuned i unrhyw Gynghorwyr newydd neu Gynghorwyr presennol gael hyfforddiant o'r newydd.
Dywedodd cynrychiolydd y Graig ei fod wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn 2017 a'i fod wedi ei chael yn ddefnyddiol.
Dywedodd y Cadeirydd na fyddai gormod o newidiadau mwy na thebyg, ac fe fyddai dyletswyddau cydraddoldeb yn cael eu hychwanegu atynt gan fod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a gallant hefyd edrych ar rôl yr Ombwdsmon wrth ymdrin â Chwynion a chofrestr llog Aelodau e.e. datganiad eiddo. Yng Nghasnewydd rydym yn dileu cyfeiriadau cartref aelodau er resymau diogelwch.
Ategodd y Cadeirydd bod y Cynghorau Cymuned wedi cael cyfarwyddyd gan yr Ombwdsmon a gyhoeddwyd yn flaenorol ar y Cod Ymddygiad a oedd yn llawer gwell gydag enghreifftiau achos go iawn.
Trafodwyd fod hyfforddiant bellach yn cael ei gyhoeddi ar-lein a oedd yn dda i'w wneud yn eich amser eich hun, ond bod hyfforddiant Cod Ymddygiad yn well wyneb yn wyneb.
Holodd cynrychiolydd y Graig a fyddai unrhyw addasiadau ar gyfer unigolion sydd ag anghenion ychwanegol ar gyfer yr hyfforddiant.
Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai addasiadau'n cael eu gwneud, ac y byddai angen rhoi gwybod i ni am unrhyw addasiadau sydd eu hangen gan fod angen gwneud cydraddoldeb yn flaenoriaeth.

Cytunwyd:
I'r Swyddog Cymorth Llywodraethu dosbarthu unrhyw ganllawiau newydd i bob Cyngor Cymuned.

3 **Gwirfoddoli Casglu Sbwriel**

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg bod llawer o grwpiau codi sbwriel wedi bod nawr ar ôl y cyfnod clo, sydd wedi codi llawer o gwestiynau a gofynnodd cynrychiolwyr Gwynllŵg am i swyddog ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn egluro rhai pwyntiau.
Trafodwyd o ran y casgliadau bagiau, adroddwyd bod gwrthod casglu mewn rhai ardaloedd a'r pwynt mwyaf oedd o ran sbwriel a gafodd ei dynnu allan o ffos oedd wrth ymyl y ffordd, a'r dealltwriaeth bresennol oedd nad mater Cyngor Casnewydd oedd hynny ond mater y tirfeddiannwr.
Gofynnodd cynrychiolydd Gwynllŵg a yw'r ffos ar y briffordd yn gyfrifoldeb Cyngor Casnewydd ac a yw'r sbwriel yno'n gasgladwy neu beidio.
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y swyddog Cymorth Llywodraethiant yn cofnodi'r cwestiynau a ofynnwyd ac y byddai gofyn am gyngor gan Wasanaethau Dinas ynghylch pwy oedd yn gyfrifol.
Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg mai'r hyn y gobeithir ei gael oedd system o gefnogaeth, a mwy o gefnogaeth i grwpiau lleol gan eu bod yn glanhau llawer o ardaloedd a'r farn oedd bod angen cymorth yr awdurdod lleol. Erbyn hyn mae dau grŵp yn ardal Gwastatir Gwynllŵg. Eglurwyd dros y flwyddyn ddiwethaf bod cwmni gwastraff lleol wedi tynnu 300-400 o fagiau o sbwriel, a oedd yn helpu'r awdurdod

drwy wneud hyn gan y byddai'n costio miloedd, ond roedd angen cymorth ar y grwpiau lleol.
Dywedodd cynrychiolydd Maerun ei bod yn llwyr gefnogi'r hyn yr oedd cynrychiolwyr Gwynllŵg wedi'i ddweud ac esboniodd ei bod yn rhan o grŵp Marshfield Magpies, a thros y cyfnod clo maen nhw wedi cael llawer iawn o sbwriel a thipio anghyfreithlon. Ar eu cae ffin mae canol ffos ac yn hyn roedd 200 o deiars ac fe gafodd un llwyth ei dynnu oddi yno ond dylai'r tirfeddiannwr fod wedi ei dynnu oddi yno. Cafodd sbwriel ei dynnu oddi yno ar ôl iddo gael ei adrodd trwy ddefnyddio'r app. Roedd y gymuned yn gweithio'n galed iawn i ddatrys hyn trwy adrodd am dipio anghyfreithlon, ond y teimlad oedd bod yna frwydr go iawn gyda Chyngor Dinas Casnewydd a gyda rhai swyddogion gyda'r teimlad eu bod yn niwsans ac na ddylent fod yn codi sbwriel, gan ei fod yn anghyfleustra ac yn achosi mwy o waith.
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi'i synnu gan y sylwadau hyn wrth i faterion codi sbwriel gael eu hannog gan Gyngor Dinas Casnewydd, ond nid mater iddyn nhw ateb oedd hwnnw. Gallai fod o fudd i Christine Thomas (Rheolwr Masnach a Gorfodi) neu Silvia Gonzalez Lopez (Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau) i fynychu cyfarfod Cyswllt y Cynghorau Cymuned yn y dyfodol i drafod casglu sbwriel.
Dywedodd y Cynghorydd Yvonne Forsey ei bod wedi siarad â chynrychiolydd Cadwch Gymru'n Daclus heddiw a bod mwy o ddarpariaeth wedi'u gwneud ar gyfer casgliadau cyflymach ar y penwythnos. Ond roedd sôn hefyd am yr angen i gydlynu teithiau codi sbwriel yn y ddinas.
Cytunodd y Cadeirydd bod angen cydlynu hyn.

Cytunwyd:
I Christine Thomas (Rheolwr Masnach a Gorfodi) neu Silvia Gonzalez Lopez (Rheolwr Gwasanaethau Gwastraff a Glanhau) i gael eu gwahodd i fynychu cyfarfod Cyswllt y Cynghorau Cymuned y dyfodol i drafod casglu sbwriel. Hefyd, i gysylltu â chynrychiolydd Cadwch Gymru'n Daclus, Matthew Selwood, er mwyn iddo fod yn bresennol.

4 **Argaeledd Grantiau Llywodraeth Cymru**

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei bod hi'n bwysig i Gynghorau Cymuned wybod pa grantiau oedd allan yna a'u bod wedi cael hysbysiadau am grantiau i neuaddau, bioamrywiaeth ac ati; a yw cynghorau eraill yn clywed am hyn?

Dywedodd cynrychiolydd Maerun eu bod yn derbyn hysbysiad o grantiau. Mae grantiau Magpies wedi cael eu hystyried ar gyfer peillio gerddi yn y pentref ac mae llawer o grantiau allan yna. Weithiau maen nhw ar fwletin Casnewydd. Byddai un pwynt neu restr yn wych.
Trafodwyd bod Gavin Jones yn gyswllt da er mwyn trafod grantiau.

Esboniodd y Cadeirydd pe bai Cyngor Dinas Casnewydd yn ymwybodol o unrhyw rai yna byddem yn gwneud Cynghorau Cymuned yn ymwybodol ac os daw cyllid trwyom ni, gallwn ledaenu gwybodaeth amdano. Roedd llawer o arian yn dod gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i Gynghorau Cymuned. Pe byddem yn ymwneud yn uniongyrchol, yna gallem wneud Cynghorau'n ymwybodol, fel arall gallai ein osgoi.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg eu bod am ddefnyddio'r fforwm hwn i argymell i Gynghorau wneud hyfforddiant grant loteri a chynghori pob Cyngor i wneud hyn. Dywedon nhw nad oedden nhw'n ymwybodol os oes sefyllfa paru arian, gallwch dderbyn hyn drwy'r loteri o ddau grant. Os cawsoch grant ac roedd angen i gyfrannu cronfa gyfatebol ac roedd angen grant arall arnoch i gefnogi hyn, yna bydd hyn yn cael ei gymryd fel y gronfa paru.

Cytunodd y Cadeirydd y gallai arian cyfatebol ddod o ystod eang o ffynonellau a bod llawer o hyblygrwydd.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun fod gan Lywodraeth Cymru lawer o arian i'w ddarparu.

Dywedodd cynrychiolydd y Graig fod angen gwneud peth gwaith yng Nghanolfan Gymunedol Rhiwderyn, ac felly fe wnaethon nhw gais i'r loteri, ond fe wnaeth cronfa'r Loteri roi gwybod iddyn nhw gan eu bod nhw'n Gyngor Cymuned, nid oeddynt yn cael mynediad ato, felly dyma nhw'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn lle.

Cytunodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio ei fod yn dibynnu ar y math o gronfa yr oedd, gan nad oedd rhai ar gael i gyrff cyhoeddus.

Esboniodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod ganddo gerdyn credyd loteri i werth £850 am ddau de parti ar gyfer cronfa Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop a ohiriwyd ar gyfer y cyfnod clo. Ond cafodd y cyngor cymuned wybod os oedd digwyddiad cymunedol yn y dyfodol a bod modd defnyddio'r arian, nad oedd angen iddyn nhw gwblhau ffurflen. Cyflwynwyd syniad, ac yna rhoddwyd yr ateb.

5 **Cronfeydd Cymunedol gan Ddatblygwyr Trydydd Parti**

Ni thrafodwyd yr eitem hon.

6 **Cynghorau Cymuned a Meddiant Anffafriol ar Dir Comin**

Esboniodd cynrychiolydd Gwynllŵg eu bod flynyddoedd yn ôl wedi cael gwybod na allech chi feddu ar dir comin yn andwyol. Mewn sgwrs ddiweddar daeth i'r amlwg y gallwch ei feddu'n andwyol a oedd yn wahanol i'r hyn a ddeallwyd. Sbardunodd hyn y cyngor cymuned i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â lloc sydd wedi cael ei drin trwy fel yn gyfreithlon dros y blynyddoedd.

Cafodd hwn ei drosglwyddo wedyn i wasanaethau'r ddinas, ond dydyn nhw ddim wedi cael unrhyw ymatebion hyd yma.

Gofynnodd cynrychiolydd Gwynllŵg a oedd y wybodaeth newydd hon yn gywir ac a allwch chi feddu ar dir comin yn andwyol. Os gallwch chi yna roedden nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw fynd i'r afael â'r llociau hyn oherwydd efallai y byddai gofod yn cael ei golli.

Cynghorodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio ei bod yn eithaf eithriadol i gael meddiant unigryw o dir comin oherwydd yr hawliau cyhoeddus sefydledig, ac roedd yn anarferol iawn i gaffael teitl cyfreithiol drwy feddiant andwyol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yn berchen ar y tir yn gyfreithiol a gellir prynu a gwerthu'r teitl i dir comin.

Os oedd yn dir comin cofrestredig, yna ni all perchnogaeth ymyrryd â hawliau pobl i fwynhau'r comin a dyma le mae gwasanaethau Dinas yn dod i mewn, oherwydd lle mae tiroedd comin a chynllun rheoli yna bydd gwasanaethau'r Ddinas yn rheoli'r comin.

Tîm Cefn Gwlad oedd yn gyfrifol am reoli'r tir yma.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg, pan nad oedd gan y tir comin berchnogaeth hysbys yna roedd y cyfan yn glir. Fodd bynnag, gwerthwyd y Comin ac yna felly

roedd perchennog, ac mae'n ymddangos pan fo problem, mae angen cytundeb gan y perchennog i gyflawni rhai pethau ac mae'r perchennog presennol yn eithaf rhwystrol. Mae'r comin presennol wedi gordyfu ac mae ceir arni ond esboniodd Julie nad oes modd iddyn nhw fynd ymlaen yno gan y byddant yn tresmasu.

Fe esboniodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio os oes perchennog ac ati yna byddai'r cyngor angen eu caniatâd i wneud gwaith, ond mae gan bobl hawl i gerdded dros y comin e.e. i fynd arno a chael gwared ar sbwriel. Fodd bynnag, mae gwneud gwaith yn wahanol gan fod hyn efallai yn gofyn am ganiatâd y perchennog.

Esboniodd Cynrychiolydd Gwynllŵg nad oedd modd gosod band eang ac ati yn ddiweddar gan nad oedd modd i'r cwmni cyfleustodau gyrraedd y polyn telegraff.

Cytunodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio ei bod yn sefyllfa anodd a dyma pam y cafodd y cyngor cymuned ei gyfeirio at wasanaethau'r Ddinas, ac esboniodd mai disgresiwn nid dyletswydd oedd gwneud gwaith yno.
Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg, Julie, na allen nhw ei defnyddio gan ei fod wedi gordyfu cymaint, ond dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio bod hyn yn broblem ymarferol ac nid yn broblem gyfreithiol. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio eu bod yn ymgynghori ag aelod o'r adran gyfreithiol a fyddai'n dilyn i fyny ar hyn gyda Gwasanaethau'r Ddinas.

Gofynnodd cynrychiolydd Graig Nathan os oedd pobl yn cyflawni troseddau yno, ac a oedd modd i gamau cyfreithiol cael eu cymryd yn eu herbyn.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y gallant gael dirwy ond nad oedden nhw'n ymwybodol o beth oedd y ddirwy. O dan gynlluniau rheoli roedd gweithredu uniongyrchol yn well.

Gofynnodd cynrychiolydd Trefonnen i bwy oedd y ceir yn perthyn ac eglurodd cynrychiolydd Gwynllŵg, Julie, fod y ceir yn perthyn i'r tirfeddiannwr a does gan neb ganiatâd i fynd ymlaen i'r tir i'w symud.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod hyn yn broblem oherwydd gyda symud cerbydau wedi'u gadael, byddai angen caniatâd y perchennog i'w tynnu hyd yn oed pe baen nhw ar y comin. Bu'n rhaid rhoi rhybudd 7 diwrnod arnyn nhw i'w tynnu i ffwrdd. Fodd bynnag, roedd angen edrych ar hyn gan wasanaethau'r Ddinas.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg na all pobl yrru drosto ond bod ceir yn cael eu gadael yno. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y gall y perchennog wneud unrhyw beth ar y comin y maen nhw eisiau os ydyn nhw'n berchen arno, oni bai bod hawliau mynediad cyhoeddus yn cael eu hatal. Efallai bod hyn yn rhywbeth yr oedd y tîm Gwyrdd yn gallu edrych arno a dywedodd y Cadeirydd y bydden nhw'n mynd ar ôl hyn.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg, Julie, gan fod perchnogaeth wedi achosi cymaint o broblemau y gall Cyngor Dinas Casnewydd gymryd hyn yn ôl. Pe bai'r cyngor cymuned yn codi digon o arian i brynu'r comin a bod cynllun gweithred drefniant, a ellid rhoi'r comin yn rhodd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd ie os yw gwasanaethau'r ddinas ei eisiau a bod modd ei gynnal.

Soniodd cynrychiolydd Tŷ Du am y pwynt o ran tynnu'r cerbydau ac os oedd llawer o gemegau gyda batris ceir byddai'n dod o dan berygl amgylcheddol.

Dywedodd y Cadeirydd ie os yw'n niwsans iechyd cyhoeddus yna fe allai iechyd yr amgylchedd gyflwyno rhybudd os yw'n hysbysiad iechyd difrifol.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod y ceir yn llawn sbwriel a bod pryderon ynghylch pla o lygod mawr ac fe ddaeth iechyd yr amgylchedd allan gan dybio beth oedd yn cyfrannu at hyn gan na fu problem o'r blaen.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn anodd profi niwsans llygod mawr.

7 Y Cynllun Datblygu Lleol a Chynghorau Cymuned

Roedd cynrychiolydd Gwynllŵg am roi diolch i Lindsey Christian (Rheolwr Polisi Cynllunio) a drefnodd Alwad Teams a darparu sesiwn addysgiadol a buddiol iawn ar sut y gall cynghorau cymuned gynorthwyo yn y CDLl, gan eu bod yn dechrau gweithio ar y CDLl, ac roedd cyngor eisiau ar beth allai eu rôl a'u cyfrifoldebau ar hyn fod. Teimlwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol iddi ddod i gyfarfod yn y dyfodol ac annerch y cynghorau cymuned.

Cytunodd y Cadeirydd y dylai cynllunio ddod at y grŵp a darparu cyflwyniad tebyg fel bod modd trefnu hyn.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod y cyfarfod wedi ei sefydlu gan fod Julie wedi gofyn am gyngor a bod ganddo gyfarfod Teams ynghylch arweiniad ar ddylanwadu ar y CDLl ac roedd hyn o gymorth mawr.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor ar fin adolygu'r CDLl gan ei fod yn 6 oed. Roedd cyfarfod diwethaf y cyngor ym mis Mai 2021 pan anfonwyd cytundeb cyflenwi at Lywodraeth Cymru, ac felly nesaf, byddem yn gwahodd sylwadau, ceisiadau ar safleoedd ymgeisiol i'w datblygu i'w cynnwys yn y CDLl.

Roedd yn amser da i Lindsey ddod i'r fforwm hwn gan y bydd yn cymryd tan 2024 i'r cynllun terfynol gael ei fabwysiadu.

Cytunwyd:
I Lindsey Christian neu Matthew Sharpe o Gynllunio i fynychu cyfarfod yn y dyfodol.

8 Unrhyw Fater Arall

Sylwodd cynrychiolydd Maerun am ddiffyg gwybodaeth gan yr adran Gorfodaeth ar ddatblygiadau anghyfreithiol yn y pentref ynglŷn â datblygiadau anghyfreithlon. Roedd trafferth cael mwy o wybodaeth gan y Cyngor ac fe anfonwyd cwyn i mewn oherwydd methiant i gael unrhyw adborth o gwbl. Gofynnodd cynrychiolydd Maerun i gynrychiolydd o'r adran Gorfodaeth ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

Argymhellodd y Cadeirydd y dylid anfon y manylion i mewn i'r Swyddog Cymorth Llywodraethiant er mwyn i'r Cadeirydd godi hyn gyda'r Pennaeth Gwasanaeth.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun ei bod hi'n bosib y bydd cynghorau eraill yn cael yr un problemau hefyd. Fe gafodd y gŵyn ei hanfon rhai misoedd yn ôl a phenderfynwyd ei bod yn mynd at yr Ombwdsmon gan nad oedd yn ddigonol.

Os oedd hi'n wir, dywedodd y Cadeirydd fod problemau gyda phrosesau wrth ddelio gyda chynghorau cymuned fe allai hynny gael ei godi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg eu bod wedi bod yn rhan o drafodaethau ynglŷn â Gofalwyr Cudd oedd yn ofalwyr i aelodau o'r teulu oedd yn anhysbys, ac fe gafodd ei ddarganfod bod meddygon teulu wedi clustnodi swyddogion gofalwyr ac felly hefyd pob awdurdod lleol.

Cytunwyd:

I'r Swyddog Cymorth Llywodraethiant canfod enw'r swyddog Gofalwr Cudd a ddyrannwyd.

I gynrychiolydd Maerun anfon e-bost at y swyddog cymorth Llywodraethiant unrhyw wybodaeth am yr ymholiad Gorfodaeth i gael ei drosglwyddo i'r Cadeirydd.

9 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

16 Medi 2021 am 6pm

10 **Gwe-ddarllediad y Pwyllgor**

The meeting terminated at Time Not Specified